



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llyfr Log Papur: Cwestiynau Cyffredin

1

Beth yw llyfr log papur?

Mae angen i bob cwch pysgota cofrestredig masnachol lenwi a chyflwyno cofnod o'r holl weithgareddau sy'n digwydd ar y cwch. Ar gyfer cychod 10 – 12 metr a chychod 10 metr neu lai sy'n aelod o Gorff Cynhyrchu, y llyfr log papur yw'r cofnod hwnnw. Defnyddiwch y llyfr log i gofnodi gweithgareddau pysgota pob trip ar y cwch, a phob diwrnod o weithgaredd ar y trip hwnnw. Mae hynny'n cynnwys manylion y ddalfa yn ôl ei maint a rhywogaeth y pysgod yn ogystal â sut a ble y cafodd y pysgod eu dal. Mae angen gwneud datganiad glanio ar gyfer pob trip fydd yn nodi pwysau a chyflwr y pysgod sy'n cael eu glanio.

2

Pwy sy'n gyfrifol am lenwi a chyflwyno'r dalenni log papur a'r datganiadau glanio?

Cyfrifoldeb y perchennog a'r meistr sy'n bennaeth ar y cwch pysgod yn ystod unrhyw drip yw sicrhau bod dalen log yn cael ei llenwi'n gywir a'i chyflwyno ar gyfer pob trip. Mae'r perchennog a'r meistr yn gyfrifol hefyd bod datganiad glanio cywir yn cael ei wneud a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob trip.

3

Pryd dylech chi lenwi dalen log papur a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru?

Dylech lenwi dalen log ar gyfer pob trip y bydd eich cwch pysgota cofrestredig yn ei wneud o ddechrau'r trip, hyd at a chan gynnwys pan fyddwch yn dychwelyd i borthladd. Dylech ddiweddarau'r ddalen log yn ystod y trip a'i chyflwyno fel a ganlyn:

- Os ydych yn glanio'ch pysgod mewn porthladd dynodedig, rhowch y ddalen log ym Mluch Postio'r Llyfr Log cyn eu glanio. Fe welwch restr o'r porthladdoedd dynodedig a lleoliad Blychau Postio Llyfrau Log yn amodau trwydded eich cwch pysgota. Fel arall, rhowch eich dalen log i Swyddog Gorfodol Morol cyn glanio.
- Os ydych yn glanio mewn porthladd arall, rhowch eich dalen log i Lywodraeth Cymru o fewn 48 awr ar ôl glanio neu rhowch hi i Swyddog Gorfodi Morol cyn glanio.

Mae'n bwysig bod y person sy'n llenwi'r ddalen log a'r datganiad glanio yn eu llofnodi.

4

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi ar y ddalen log?

Ar gyfer pob trip pysgota, rhaid rhoi'r wybodaeth a ganlyn:

- Manylion y cwch (gan gynnwys yr enw a'r PLN)
- Manylion y meistr (enw llawn a chyfeiriad llawn)
- Manylion y trip (dyddiad gadael a dyddiad dychwelyd)
- Manylion y gêr (math o gêr, maint y rhwyllau, dimensiynau)
- Gweithgarwch dyddiol (gan gynnwys dyddiad, a nifer y gweithgareddau pysgota)
- Yr ardal y byddwch yn pysgota ynddi (gan gynnwys yr hirsgwar ystadegol)
- Y ddalfa y byddwch yn ei chadw (rhaid cofnodi popeth dros 50kg)
- Y ddalfa y byddwch yn ei thaflu
- Y ddalfa y byddwch yn ei glanio (datganiad glanio)

I gael rhagor o fanylion yngylch pa ddata sydd eu hangen a sut i'w cofnodi, siaradwch â Swyddfa Aberdaugleddau neu â'ch Swyddog Gorfodi Morol Lleol.

5

Pa wybodaeth sydd ei hangen yn y datganiad glanio?

Rhaid i'r datganiad glanio gynnwys manylion y glaniad (dyddiad, amser a lleoliad) a manylion y rhywogaethau sy'n cael eu glanio (pwysau, sut ydych yn eu cyflwyno, cyflwr) gan gynnwys y rhywogaethau fydd heb eu gwerthu. Y meistr neu ei gynrychiolydd ddylai llenwi a chyflwyno'r datganiad glanio.

6

Dw i wedi gwneud camgymeriad wrth lenwi'r llyfr log. Beth dylwn ei wneud?

Rhaid i bopeth ar eich dalen log bapur neu'r datganiad glanio fod yn glir ac mewn inc annileadwy. Ddylech chi ddim ceisio dileu na newid unrhyw beth. Ond os byddwch wedi gwneud camymgeriad, rhowch linell trwy'r camgymeriad ac ysgrifennu'r cofnod cywir yn glir a chael meistr y cwch neu ei gynrychiolydd i roi ei lythrennau blaen wrtho.

7

Sut dylwn i gyflwyno fy nalen log bapur a datganiad glanio?

Gallwch gyflwyno'ch dalen log bapur a'ch datganiad glanio i Lywodraeth Cymru mewn pedair ffordd:

- Rhowch eich dalen log i Swyddog Gorfodi Morol
- Ewch â hi'n bersonol i swyddfa leol Llywodraeth Cymru
- Ei phostio i swyddfa Aberdaugleddau
- Ei rhoi mewn Blwch Postio Llyfr Log (darllenwch amodau'ch trwydded i weld ble mae'ch Blwch Postio agosaf)

8

Sut caiff yr wybodaeth rwy'n ei rhoi ar y ddalen log a'r datganiad ei defnyddio?

Y data yw'r dystiolaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i allu gwneud y penderfyniadau iawn i ddiogelu stociau pysgod a'r diwydiant bwyd môr ar gyfer y dyfodol. Gallai hynny gynnwys rheoli cwota, mesurau cadwraeth a sut i dalu grantiau. Mae'n bwysicach nag erioed nawr gan y bydd unrhyw dystysgrifau sydd eu hangen wrth allforio cynnyrch pysgodfeydd yn cael eu dilysu trwy'r data a geir oddi wrth y pysgotwr a'r masnachwr.

9

Beth sy'n digwydd os na wna i gyflwyno dalen log bapur neu ddatganiad glanio'n gywir neu'n brydlon?

Ni fydd Llywodraeth Cymru'n cael y data sydd eu hangen arni i reoli pysgod yn gynaliadwy, olrhain eich pysgod a phrofi eu bod yn gynaliadwy. Gallai effeithio ar ein gallu i ddilysu allforion pysgod i wledydd yr UE. Gan ei fod yn ofyn cyfreithiol, gallai camau gorfodi gael eu cymryd yn eich erbyn.

10

Beth sy'n digwydd os caiff y llyfr log ei golli neu ei ddiinstrio trwy ddamwain?

Os ydych wedi dod at ddiwedd y llyfr log, ei golli neu ei ddiinstrio, cysylltwch â swyddfa pysgodfeydd Aberdaugleddau ichi gael un newydd ganddynt ac os oes angen, iddynt nodi pam eich bod yn cael un newydd yn gynnar.

11

Dw i ddim yn gwybod sut i lenwi fy llyfr log; all rhywun fy helpu?

Os oes angen rhagor o help arnoch chi ynghylch sut i lenwi neu gyflwyno'ch llyfr log papur neu ddatganiad glanio, cysylltwch â swyddfa Aberdaugleddau neu siaradwch â'ch Swyddog Gorfodi Morol lleol fydd yn fwy na pharod i roi cyngor ichi.

Cyswllt

Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru
Suite 3 – Cedar Court
Parc Busnes Havens Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

Ffôn: 03000 253500

E-bost: milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru